



23 Rhagfyr 2021

Annwyl

### **ATISN 15710 Addasiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a gefais ar 24 Tachwedd. Roeddech yn gofyn am y canlynol:

- 1) Gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a thrafodaethau gyda'r sector addysg ynghylch y penderfyniad i newid paragraff 7(5)(b) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 drwy ychwanegu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion i'r rhestr o ddeddfiadau ac i ddyroddi Hysbysiadau i Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) yn 2020 a 2021
- 2) Manylion yr ystyriaeth a roddwyd i ddefnyddio'r dull gweithredu statudol i adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a geir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae'r memorandwm esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020, a'r hysbysiadau a gyhoeddwyd yn unol ag adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn esbonio'r penderfyniadau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau (1) a (2) eich cais. Cyhoeddwyd canllawiau anstatudol hefyd ym mis Ionawr 2021, yn esbonio'r newidiadau dros dro i ofynion penodol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r canllawiau ar gyfer ymgynghori ar gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws. Cyhoeddwyd y rhain ar wefannau'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Dyma'r dolenni perthnasol:

[Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir \(Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020\) \(Cymru\) 2020](#)

[Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2020 | LLYW.CYMRU](#)

[Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2021 | LLYW.CYMRU](#)

[Canllawiau atodol ar gyfer yr ail hysbysiad – Cod Trefniadaeth Ysgolion - Ionawr 2021](#)

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chofnodi am drafodaethau â'r sector addysg mewn perthynas â'r penderfyniadau sydd o dan sylw yn eich cais. Nid oes

gennym ychwaith wybodaeth sydd wedi'i chofnodi am drafodaethau â'r sector addysg mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddwyd i ddefnyddio'r dull gweithredu statudol i adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a geir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn ymateb i'ch cais am wybodaeth. Os nad ydych yn fodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 o ddiwrnodau gwaith i'r ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawliau Gwybodaeth,  
Llywodraeth Cymru,  
Parc Cathays,  
Caerdydd,  
CF10 3NQ

Neu e-bostiwch: [Freedom.ofinformation@llyw.cymru](mailto:Freedom.ofinformation@llyw.cymru)

Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Wycliffe House,  
Water Lane,  
Wilmslow,  
Swydd Gaer / Cheshire,  
SK9 5AF.

Er hynny, ni fydd y Comisiynydd yn ymchwilio i gŵyn fel arfer hyd nes y bydd y gŵyn wedi drwy ein proses adolygu fewnol.

Yn gywir